

Y LLINYN ARIAN

Cylchgrawn Capel Salem, Caernarfon. Hydref 2020

Diolchgarwch 2020

Fe ddaeth y cynhaea' yn saff i'r sguatoria
A'r grawn at y gaea sy'n glyd o dan glo
Ond dyma ein problem, faint bynnag a wingem
Mae pyrth yr hen Salem 'di selio.

Ac felly gyfeillion, rhaid cyfri'n bendithion
Gan aros yn ffyddlon i'r moddion drwy'r we -
Pan gilia'r pla erchyll, a'r holl fisoedd tywyll,
Mor braf bydd ailgynull ein cartre!
Ifor ap Glyn

Pwyntiau i arwain eich gweddïau gan Cymorth Cristnogol -tymor yr Hydref.

Diolchgarwch am gymuned

Dychmygwch y gymuned yr ydych yn byw ynnddi, eich stryd, eich cymdogion, eich teulu a chymuned eich eglwys. Myfyriwch am y berthynas fu rhyngoch yn ystod cyfnod rhyfeddol 2020. Diolchwch i Dduw am y cariad a deimlir ac a ddangosir yn eich cymuned yn ystod pandemig y Coronafirws. Diolchwch fod cariad yn gallu ein huno i gyd, er gwaethaf her ein cyfnod

Galaru dros golled

Nawr, dowch â'r pethau hynny sy'n fwrn ar eich calon ger bron Duw, yn cynnwys unrhyw gonsyrn sydd gennych dros gymunedau ar draws y byd. Cymunedau oedd eisoes yn wynebu heriau trais ac anghydfod, newyn a sychder, anghydraddoldeb ac anghyfiawnder, hyd yn oed cyn i'r Coronafirws ychwanegu at eu trafferthion eleni. Tywalltwch eich consyrn dros y byd a'r galar am y colledion yr ydych yn gwybod amdanynt, i Dduw'r holl gysuron

Cyffesion

Gyda gostyngedd drwydd a gonestrwydd, fe dreuliwn amser yn cyffesu'r amserau, boed yn wybyddus neu beidio, pryd na wnaethom garu Duw gyda'n calon, meddwl, enaid a nerth, a phryd na wnaethom bob amser garu ein cymdogion lleol a byd eang fel ni'n hunain. Cofiw: 'Wnaeth e ddim delio gyda'n pechodau ni fel roedden ni'n haeddu, na thalu'n ôl i ni am ein holl fethiant ... Mor bell ag ydy'r dwyrain o'r gorllewin, mae wedi symud y gosb am i ni wrthryfela.' Salm 103:10, 12. Diolch a fo i Dduw .

GAIR GAN Y GWEINIDOG

“Yda ni'n mynd i agor” “Yda ni am barhau addoli dros zoom?” “Ddylswn i wisgo mwgwd tu allan ?” “Pam 2 fetr yng Nghymru a metr yn Lloegr?” “Ddylswn i olchi'r nwyddau o'r siop?”

Mae cymaint o gwestiynau a gymaint o ansicrwydd ynglyn â bywyd y dyddiau yma. Mae bywyd wastad wedi bod yn ansicr; does yr un ohonom yn gwybod yn union beth sydd o'n blaen wrth ddeffro yn y bore. Ond roedd yr ansicrwydd yn rhan o batrwm bywyd oedd yn weddol sefydlog i'r mwyafrif. Ers mis Mawrth, fodd bynnag, mae popeth ar ei ben ei waered. Ond yn ystod misoedd yr Haf gwelwyd arwyddion fod sefyllfa covid-19 yn tawelu ac roedd y cyfyngiadau arnom yn dechrau llacio. Aethom i ryw drefn newydd o fyw efo'r feirws a llwyddo i ddarganfod rhythm newydd i'n bywyd gan obeithio am ddychwelyd i ryw fath o 'normalrwydd'.

Ond yn ystod y pythefnos diwethaf, mae pethau fel petaent yn llithro unwaith eto. Ryda ni'n chwilio am atebion, yn disgwyl arweiniad. Ond mae popeth yn ymddangos mor simsan, a neb yn siwr iawn o'r ffordd orau i fynd ati i drefnu unrhyw beth.

Weithiau, dwi'n teinlo fel sgrechian a gweiddi; neith rywun roi ffaith gywir i mi ar sut i ymateb i'r pandemig? Neith rywun ddweud yn union sut i reoli risg a chadw pawb yn ddiogel. Ond mae un person yn dweud un peth, rhywun arall efo awgrym gwahanol. Sefydliad draw fan'cw yn dehongli'r canllawiau fel hyn, eglwys fan hyn yn ymateb mewn ffordd arall.

Ond efallai mai un problem ydy ein bod ni'n chwilio am rywbeth sydd ddim yn bodoli ar hyn o bryd; ffeithiau a sicrwydd mewn pandemig. Dwi wedi yn dod yn gafrwydd efo Trisha Greenhalgh yn ystod y misoedd diwethaf. Ei theitl proffesiynol yw; Professor of Primary Care Health Sciences, Nuffield Department of Primary Care Health Sciences, Prifysgol Rhydychen. Mae wedi ysgrifennu yn eang ac mae'n wych am rannu negeseuon am fyw mewn pandemig mewn ffordd ymarferol. Roedd yn un o'r rhai cyntaf yn y DG i alw am ddefnyddio mwgwd fel ffordd i reoli'r feirws. Ond tydy ei phapur diweddaraf ddim i'w wneud efo rheoli'r feirws, ond yn hytrach mae'n trafod; Rheoli Ansicrwydd yng nghyfnod Covid-19. Mae'n cychwyn drwy ddweud: ***Tydy'r erthygl yma ddim yn cynnig atebion. Mae'n trafod ansicrwydd a sut rydym yn delio efo hynny.***

Mae'n dweud mai'r prif reswm ryda ni gyd yn teimlo fel ein bod ar ryw roller-coaster ffeithiol ac emosynol ydy ein bod yn byw drwy bandemig newydd. Does neb wedi bod fan hyn o'r blaen. Oes mae achosion mewn hanes lle mae pobol wedi byw drwy bandemig.



Gair gan y Gweinidog (Parhad o tudalen 2)

Ond ddim hwn ac nid ers cenhedlaeth. Mae'n son fod data sy'n debygol o fod yn wir heddiw yn gallu cael ei brofi'n hollol anghywir fory. Ac ofer mewn gwirionedd ydy chwilio am y data perffaith neu'r ffordd berffaith o weithredu.

Mae'n dweud: *Yn hytrach na chwilio – neu honni sicrwydd - dylsem fod yn agored ynghylch ansicrwydd a thryloyw yn y ffyrdd yr ydym yn cydnabod pa mor gyfyngedig yw'r data amherffaith nad oes gennym ddewis ond ei ddefnyddio. Dylai timau gael eu hannog i gyfaddef anwybodaeth, archwilio paradosau ac i adlewyrchu gyda'i gilydd.*

Felly does 'na ddim atebion pendant i gymaint o'n cwestiynau, ac mae'n debyg mae un o'r camau cyntaf i'w cymryd er mwyn ymateb i bandemig ydy derbyn yr ansicrwydd.

Ond fel Cristnogion, yng nghanol unrhyw ansicrwydd, mae'n bwysig cofio fod gennym sicrwydd; cariad a chynhliath Duw yn Iesu. Yn y storm honno ar Lyn Galilea, lle roedd Iesu pan oedd y disgyblion yn llawn panig ac ansicrwydd? Roedd Iesu'n cysgu. "Pam yda chi'n poeni? Dwi yma efo chi!" Tydy Iesu ddim yn addo bywyd heb stormydd, dim ond sicrwydd y bydd efo ni yn y storm.

Rhai wythnosau yn ôl aeth Richard a fi (a Rwddlan y West Highland!) am dro i Llyn Cwm Dulyn, Dyffryn Nantlle. Doedd neb ar gyfyl y lle, ond ni. Ar ôl cerdded at ben pella'r llyn, eisteddom i lawr wrth y nant. Roedd y mynydd yn ymestyn yn uchel o'n blaen a'r awyr yn las llachar. Roedd swm y nant yn tawelu fy enaid wrth i mi deimlo gwres yr haul ar fy wyneb. Edrychais i fyny'r llethr a meddyliais nad oedd yr olygfa o'm blaen - doedd na'm peilon na ffens na wal i'w gweld – wedi newid ers miloedd o flynyddoedd. Yr unig beth i'w weld oedd mynydd ag awyr – yr union beth y byddau rhywun a fyddai wedi eistedd yn yr un fan a mi gannoedd o flynyddoedd yn ôl wedi ei weld, ac roedd rhyw gysur rhyfedd i'w gael yn y sicrwydd yna.

Ac am ychydig funudau gwerthfawr, anghofiais am covid-19 ac am y dryswch yn fy mhen o'i sgil, a gwelais fawredd Duw yn y graig o'm blaen. Ond yn bwysicach na hynny, teimlais bresenoldeb Duw yn ddwfn o'm mewn. Ac yn swm y nant, daeth geiriau'r Apostol Paul i'm meddwl: Rhuf 8:'38,39: Dw i'n hollol sicr fod dim byd yn gallu'n gwahanu ni oddi wrth ei gariad o. Dydy marwolaeth ddim yn gallu, na'r un profiad gawn ni mewn bywyd chwaith. Dydy angylion ddim yn gallu, na phwe-rau ysbrydol drwg. Dim byd yn y presennol nac yn y dyfodol. Dim byd ym mhellteroedd eitha'r gofod nac yn nyfnderoedd y ddaear! Na, does dim yn y bydysawd yma greodd Duw yn gallu'n gwahanu ni oddi wrth gariad Duw yn ein Harglwydd ni, y Meseia Iesu!

(ymddangosodd yn wreiddiol yn Y Tyst, Medi 24)

HUNODD

Dydd Llun 4ydd o Fai bu farw **Mr Eifion Wyn Roberts, Rhobell**, Ffordd Beth-el.

Cynhaliwyd y gwasanaeth angladdol yng Ngrematoriwm, Bangor. Yn llyfr dathlu achos Salem yn 150 oed, ymysg nifer o luniau sydd ynddo mae pedwar llun o Eifion. Mae dau ohonynt o ddiaconiaid Salem lle bu'n ddiacôn am drideg chwech o flynyddoedd. Y trydydd yw Pwyllgor Adeiladau lle bu'n ysgrifennydd cydwybodol a'i ofal a'i arweiniad yn amhrisiadwy. Y llun olaf yw Eifion a Ieuan Jones ar y scaffold tu mewn i Gapel Salem yn edrych ar y nenfwd. Mae gan Ieuan Jones het bwrbasol ond dim Eifion a phan ofynnwyd iddo lle 'roedd ei het, atebodd: "Dydwi ddim angen het—mae fy mhen yn ddigon caled"! Dyledus ydym fel eglwys o gael aelod a weithiodd yn ddiffino dros yr achos. Cydymdeimlwn yn ddwys iawn a Menai ei briod, Geraint, Glyn a Sue a'u plant a'i chwaer Elizabeth.

Dydd Sadwrn 25 Ebrill bu farw **Mr R.Eric Jones, 23 Bryn Rhos, Rhosbodru-al** Cynhaliwyd y gwasanaeth angladdol yng Nghrematoriwm, Bangor, Rhosbodru-al. 'Roedd gwreiddiau Mr Jones yn Nhalsarn a bu'n gweithio i'r llywodraeth lleol am flynyddoedd; roedd yn cael ei adnabod fel Eric Jones, Personel!. 'Roedd ef a'i briod wedi bod yn briod am 63 o flynyddoedd.

Cydymdeimlwn yn ddwys a'i briod Mrs Sheila Jones a'i merch Linda a'i phriod Geraint a'u mab Gethin. Cydymdeimlwn hefyd a Geraint yn ei brofedigaeth yntau o golli ei dad yn ystod y dyddiau diwethaf.

Dydd Sadwrn 8 Awst bu farw **Mr Robert Arthur Roberts, (Bob Roberts)** gynt o Tŵr Cain, Lôn Sidney. Cynhaliwyd y gwasanaeth angladdol ym Mynwent, Llanbeblig. Ymaelodd Mr Roberts a'i briod yn Salem yn 1996 ac roedd ymaelodi yn Salem yn golygu dod nol i gapel magwraeth ei briod a lle priododd y ddau dros chew-deg pum mlynedd nôl. Doedd perthyn i enwad arall ddim yn broblem iddo achos yn ei farn ef "mae enwadaeth wedi llesteirio bywyd ysbrydol Cymru am genedlaethau". Unrhyw un gafodd y profiad o fod yng nghwmni Mr Roberts, gwyddoch pa mor ddifyr fyddai'r profiad. Cydymdeimlwn yn ddwys a'r plant Robin, Rhiannon a Rhys a'u teuluoedd.

COLLI PERTHYNAS.

Mr Deiniol a Mrs Heulwen Evans, 12 Bryn Eglwys ym marwolaeth mam Heulwen

Miss Viera Owen, 98 Tre'r Gof ym marwolaeth ei brawd.

Mr Sion a Mrs Nan Humphreys, Pant, Bryngwyn ym marwolaeth tad Sion.

Mr Ifor a Bethan Glyn, Gwelfor, Ffordd Llanbeblig ym marwolaeth tad Bethan.

Mr John Howard a Mrs Gwenno Hughes, Madryn, Cae Gwyn ym marwolaeth brawd i John.

CYFNOD YN YR YSBYTY

Mr Evans Hughes, Bryn Ifan, Rhosbodrual.
Mr Elwyn Philips, Karina, Bron y Garth.
Mr Llion Howell, Ty Capel Salem
Mrs Rhiannon Roberts, Y Gilfach, Caeathro
Mrs Angharad Williams, Llain Fadyn, Rhos Isaf.
Mr Allan Williams, 18 Llys Gwyn
Cafodd un o blant y capel Elin Haf ddamwain ac mae ei ffer mewn plaster ar hyn o bryd—wythnos arall o garachar!.

Meddyliwn am ein haelodau sydd MEWN CARTREFI PRESWYL

Cartref Golwg y Wyddfa, Llanberis: Mrs Gweneirys Jones.
Cartref Marbryn: Mr Gareth Lee.
Cartref Gwynfa, Bontnewydd: Mrs Beryl Jones.

LLONGYFARCHIADAU :

Gwennan a Aled Griffith, 1 Bryn Tce ar enedigaeth Caio Sion brawd bach i Macsen ac i Sion a Nan Humphreys ar ddod yn Daid a Nain eto.
Llongyfarchiadau hefyd am ddod yn Daid a Nain eto i:
George ac Eirlys Jones, Bryn Eithin, Pen y Garth
Gwyn a Vivian Williams, Y Gilfach, Cae Gwyn.

Bu dathlu mawr yn 30 Bron y Garth gyda John Griffiths yn 99oed.
Croesawn un o hogie'r dre; lestin Owen, nol o'r ddinas fawr i fod yn ddirprwy Brifathro Ysgol Maesincla. Pob dymuniad da iddo a'i wr Emyr wrth iddynt ymgartrefu yn y Gogledd.

CYNGOR EGLWYSI CAERNARFON.

'Rydym yn chwilio am aelodau sy'n gefnogol i waith Cyngor Eglwysi'r Dref.
Os dymunwch weithredu fel cynrychiolydd Salem rhowch wybod i un o weinidogion yr eglwys.

OEDFA DDIOLCHGARWCH: Mae'r Cyngor Eglwysi yn gobeithio trefnu Gwasanaeth Diolchgarwch yn ein Ceir! Prynghawn Sul Hydref 18ed am 2 o'r gloch yn y Maes Parcio gwaelod o dan Morrisons.

AGOR Y LLYFR :

Gan nad yw criw Agor y Llyfr yn gallu ymweld ag ysgolion ar hyn o bryd, mae'r criw yn mynd ati i feddwl yn greadigol ar sut i gadw mewn cysylltiad a'r ysgolion a parhau i adrodd straeon o'r Beibl i blant y dre. Gobeithir gallu darparu fideos i'w hanfon i'r ysgolion. Os oes gennych ddiddordeb ymuno efo'r criw, neu am fwy o wybodaeth—cysylltwch efo Mererid.

SUL DIOLCHGARWCH : 18 HYDREF .2020



Yn arferol bydd Sul Diolchgarwch yr eglwys ar y trydydd Sul yn Hydref ac ar y Sul bydd cyfle i'r plant/leuenctid ddod a blodau/ ffrwythau a llenwi'r bocs 'Pringles' gyda'r arian i elusen arbennig. Gan nad ydym wedi ail gychwyn ein hoedfaon yn y Capel bydd yr oedfa'n digwydd eleni drwy gyfrnwg ebost ac ar Zoom am 10 o'r gloch bore Sul. Bydd yr arian eleni yn mynd i gefnogi gwaith Cymorth Cristnogol yn y Dwyrain Canol. Dyma fraslun o waith C C yn yr ardal dros gyfnod Covid-19.

PARC (partner datblygu amaethyddiaeth) yn dosbarthu bwyd ffresh i 400 o deuluoedd bregus yn Gasa, oherwydd prinder bwyd a cofid-19. Mae'r bwyd yn cael ei brynu o ffermydd lleol a grwpiau cydweithredol o ferched, sydd yn helpu cadw incwm. Hefyd yn rhannu gwybodaeth ac annog golchi dwylo, cadw pellter cymdeithasol, chwistrellu cymunedau, adeiladau cyhoeddus fel ysgolion a mosques.

Partner **Adala** wedi bod yn ymgyrchu i gadw gwasanaethau a chefnogaeth i holl drigolion Israel yn ystod y pandemig.

B'Tselem yn parhau gyda'r gwaith ar hawliau dynol yn ystod y pandemig ble mae: tynnu lawr ac atal pebyll clinic maes yng ngogledd y Lan Orllewinol; y parhad o ddymchwel cartrefi Palestinaidd; cynnydd mewn gwrthdaro yn erbyn Palestinaid, er gwaethaf cyfyngiadau symud o gwmpas, clo a mesurau pellhau cymdeithasol. Mewn nifer o'r achosion treisgar yma mae cartrefi, ffermydd a bywoliaeth yn cael eu dinistrio a Palestinaid yn cael niwed corfforol. **Os dymunwch gyfrannu, danfonwch sicc yn daladwy i Ysgol Sul Salem a'i danfon i Mr Alun Roberts, melangell, Lôn Ysgubor Wen neu'n syth i gyfrif yr Ysgol Sul Côt y Banc i'w dalu : 40 16 02 Rhif y cyfrif i'w dalu 41069446**



CASGLIAD DIOLCHGARWCH.

Un o'r ddau gasgliad ychwanegol a wneir i'r casgliad wythnosol yw Casgliad Diolchgarwch. Eleni oherwydd y Firws, ni roddir amlen i bob teulu ond gofynnir yn garedig i bob aelod ymateb. Testun diolch oedd gennym i'r ymateb gafwyd i Gasgliad y Gwelliannau yn mis Mai gan fod swm y casgliad ychydig yn fwy na llynedd. Oes modd cael yr un ymateb i Gasgliad Diolchgarwch? I gael syniad o gostau ychwanegol Salem mis yma mae gennym Cost Yswiriant yr adeiladau : £3,381.

CASGLIAD DIOLCHGARWCH.

Y ffordd hwylusaf i gyfrannu at y capel gyda Chasgliad Diolchgarwch neu unrhyw gasgliad arall yw drwy drosglwyddiad banc gan ddefnyddio'r manylion isod: **Côd y Banc i'w dalu 40-16-02**
Rhif y cyfrif i'w dalu 70724556

Os gwnewch hyn, **COFIWCH** roi eich enw a rhif aelodaeth fel cyfeirnod os gwelwch yn dda neu danfonwch siec i'r trysorydd: Mr Alun Jones, Gwyddfán, 22 Llys Meirion, Caernarfon, LL55 1LE



OEDFA ZOOM : Bore Sul am 10 o'r gloch.

RHIF Y CYFARFOD

89967405728

COD YMUNO

1588

Danfonir yr oedfa ar ebost hefyd .

Os dymuna unrhyw aelod dderbyn copi o'r oedfa a fyddwch mor garedig a chysylltu â'r Gweinidogion.

Mae Ysgol Sul Salem yn cyfarfod ar Zoom bob bore Sul am 11.30 o'r gloch.

Diolch a Chroeso!

Diolch i Ifor ap Glyn am y pennillion ar y dudalen flaen a luniwyd yn arbennig ganddo i'r Llinyn Arian. Estynwn groeso cynnes i'r dre i Mrs Iona Hughes, Mam Ifor; sydd newydd symud i Gaernarfon o Lundain. Dymuniadau da iddi yn ei char-tref newydd yn Llwyn Ceirios, Caernarfon. Braff yw ei gweld ar Zoom bore Sul ac edrychwn ymlaen i'w chroesawu.

CYFEIRIAD SAFWE CAPEL SALEM : www.capelsalemcaernarfon.com

Y DIWEDDARIAD—LLADRAD / AGOR Y CAPEL

Er nad ydy Adeilad Capel Salem ar agor eto ar gyfer addoli cyhoeddus, tydy hynny ddim yn golygu nad oes dim yn digwydd. Yn dilyn y lladrad a'r difrod yn y capel, mae'r gwaith adnewyddu yn mynd yn ei flaen. Mae hyn wedi cymryd amser oherwydd cyfyngiadau Covid-19 a'r ffaith fod nifer o weithwyr yn brysur iawn! Mae drysau newydd wedi eu gosod a'r gwaith yma bron wedi dod i derfyn. Mae technegwyr sain hefyd wedi bod yn edrych ar osod system sain newydd yn y capel a'r festri. Bydd hyn yn digwydd yn ystod yr wythnosau nesaf. Yn anffodus, ddechrau Mis Hydref cafodd pum ffenestr ym mlaen y capel eu difrodi, felly bydd angen trwsio yma hefyd.

Mae gwaith eang wedi cael ei wneud hefyd ar gwblhau Asesiad Risg Covid-19 er mwyn sicrhau ail agor diogel pan fydd hyn yn digwydd. Mae'r ddogfen yn cynnwys 29 o eitemau !. Diolch i Elfyn a Bethan, Aron a Heddwen am eu cymorth i sicrhau fod pob dim wedi'u gynnwys. Y bwriad gwreiddiol oedd ail agor ar Sul cyntaf o Hydref ond yng ngwyneb y sefyllfa bresennol penderfynnwyd oedi . Edrychir ar y sefyllfa ar ol Sul Diolchgarwch. Mae'r parotadau Covid-19 yn golygu sicrhau fod modd awyru yr adeilad yn drylwyr drwy agor ffenestri, a nodi pa seddi fydd ar gael i'w defnyddio er mwyn sicrhau cadw pellter corfforol. Dyma rai canllawiau fydd yn rhaid eu dilyn ar gyfer addoli yn yr adeilad:

Sicrhau pellter o 2 fetr wrth aros i ddod fewn i'r capel

Defnyddio di-heintydd dwylo wrth ddod i fewn i'r capel

Bydd rhaid gwisgo mwgwd ar gyfer dod fewn i'r capel

Dilyn cyfarwyddiadau stiwardiaid drws ar ble i eistedd – ni fydd modd eistedd yn eich 'sedd arferol'.

Bydd manau eistedd wedi eu trefnu er mwyn sicrhau cadw pellter o 2m

Byddwn yn cofnodi enw a rhif ffôn pawb fydd yn dod i fewn i'r adeilad i addoli.

Yn anffodus, ni fydd yn bosib ysgwyd llaw efo neb.

Ni all y capel ddarparu cludiant ar hyn o bryd .

****Un o'r pethau pwysicaf i'w gofio yw os bydd gan unrhyw un symptomau Covid-19; tymheredd uchel, tagiad newydd neu barhaus, colli arogl neu flasau, teimlo'n fyr eich anadl, yna yn anffodus, ni fyddwch yn gallu mynychu oedfa.*****

Mae swyddogion a ymddiriedolwyr y capel yn adolygu'r sefyllfa yn gyson er mwyn sicrhau diogelwch addolwyr.